

**Cystadleuaeth Cadair yr Urdd 2017 (369):  
Cerdd gaeth neu rydd heb fod dros 100 llinell ar y testun – Yr Arwr neu Yr Arwres**

**Beirniaid: Aneirin Karadog a Rhys Iorwerth**

**Beirniadaeth estynedig gyda sylwadau ar y cynigion unigol**

**SYLWADAU CYFFREDINOL**

Tri ar ddeg oedd yn y ras eleni a diolch o galon i bawb am fentro.

Gair o gyngor i'r beirdd ifanc: darllenwch amodau'r gystadleuaeth yn ofalus. Casgliad neu ddilyniant a gawsom gan sawl un, er mai am un gerdd y gofynnwyd.

Fe ganodd pawb yn weddol destunol, a braf oedd gweld y mynd amlwg sydd ar y gynghanedd ymhlith ein beirdd iau. Roedd chwech o'r cynigion – eu hanner, bron iawn – yn defnyddio'r mesurau caeth yn helaeth, ac mae gan bob un afael go dda ar sylfeini'r grefft. Ond mae lle i wella gan y cynganeddwyr i gyd, felly daliwch ati i ymarfer – dyna'r unig ffordd i wneud cynnydd go iawn. Mae ymuno â dosbarth cynganeddu neu dîm talwrn yn ffordd dda iawn o wneud hynny.

Yn yr un modd, fe hoffem annog y beirdd hynny sydd wir o ddifri i fynd ati i ganfod mentor neu athro barddol, os nad oes ganddyn nhw un yn barod. Gall y cyngorion y gall bardd eu derbyn dan adain bardd profiadol fod yn amhrisiadwy i ddatblygiad iaith a chrefft wrth farddoni, ac mae gennym ddigon o feirdd profiadol yma yng Nghymru sy'n crefu am gwmni a chlust barod i wrando arny'n nhw'n paldaruo.

I droi'n ôl at y gystadleuaeth ei hun, roeddem yn teimlo ar y cyfan mai gornest yn llawn addewid oedd hon eleni, yn hytrach nag un a oedd yn codi i'r entrychion. Dyma air byr isod am bob cystadleuydd, yn y gobaith y bydd hynny'n sbardun iddyn nhw ddal ati.

**GRAV**

Mae'r ffugenw'n datgelu gwrthrych y gerdd rydd hon. Darlun sydd ynddi o Ray Gravell, yn taranu ar y maes chwarae cyn inni droi at y gwewyr o'i gollu. Ond mae'r bardd yn ein cysuro ar y diwedd drwy ddweud y "daw eto awr yr arwr, / Yn y man." Braidd yn or-syml (os diffuant) ydi'r adeiladwaith a'r dweud yn y gerdd hon (e.e. "Ond nid methiant oedd o. / Arwr ydoedd – cawr. / Cawr o Gymro. Cawr o ddyn."). Roeddem yn teimlo ei bod yn gerdd rhy fyr, heb fod ynddi ddigon o ddyfnder na delweddu, na sylwedd na swmp at hynny, i gystadlu am wobr mor bwysig â chadair yr Urdd.

**CANTON**

Cerdd rydd arall; mae'n ymddangos mai'r 'arwr' yma ydi'r milwr sy'n lladd – ac felly darlun eironig ydi hwn. Mae yma ddisgrifio byd ar chwâl, ond braidd yn niwlog ydi'r dweud, ac yn hytrach na chreu darluniau a naratif, cyfres o ddatganiadau haniaethol a gawn yn y bôn. Mae hynny'n golygu nad ydi'n glir ym meddwl y darlennydd beth sy'n digwydd yma.

Er enghraifft, yn y pennill cyntaf yn unig, mae yna sôn am "greulondeb dyn", "wyneb angen", "pwll tiriondeb", "chwant ac atgasedd", "atgofion ddoe", "amser yn bygwth terfyn". Pethau haniaethol ydi'r rhain i gyd, ac mae yma ormod o ansoddeiriau hefyd. Ein cyngor i'r bardd fyddai anelu at fwy o gynildeb, ac yn fwy na hynny, dylai roi cynnig ar ddefnyddio delweddau go iawn o gig a gwaed i ddisgrifio'r hyn mae'n ceisio'i ddweud.

Mae'n amlwg bod CANTON yn mwynhau ymhél â geiriau – a hir y parhaed hynny! Ond mae angen ffrwyno'r awen a dweud pethau mewn ffordd fwy clir a diriaethol.

## **Y DYHUDDWR**

Cerdd rydd wedi'i seilio ar hanes Cynhadledd Wannsee, lle penderfynodd y Natsïaid mewn cwta awr a hanner weithredu'r Holocaust. Ar y dechrau, mae Y DYHUDDWR yn gelfydd iawn wrth gymharu'r penderfyniad hwnnw â "munud ddi-feddwl" wrth i rywun daflu potel Coca Cola i'r môr, a honno'n tagu gwylan. Hynny ydi, dangos anferthedd goblygiadau pethau y mae, cyn mynd yn ei flaen i ddamcaniaethu ynghylch sut y mae dyn yn gallu ymddwyn fel hyn. Mae'r dweud yn dda yma ar brydiau, ac rydym yng nghwmni bardd addawol. Ond mae'r gerdd hon yn rhy fyr i'w hystyried o ddfiri am y Gadair. Efallai hefyd y byddem yn cynghori'r bardd i gychwyn yn nes at ei draed ac â phynciau bob dydd, yn hytrach na cheisio ymgodymu, mor ifanc â hyn, â phynciau trymion, mawr fel yr Holocaust a natur dyn.

## **SMOTYN**

Cywydd (ac un englyn i gloi) a gawsom gan Smotyn. Yr 'arwr' yn ei gerdd ar yr olwg gyntaf ydi Hedd Wyn ond yn annisgwyl dyma symud wedyn i sôn am Gwm Celyn cyn neidio'n fwy annisgwyl fyth "ar daith" efo'r bardd i fan lle na "huna huniaith" – sef Abertawe. Yn fan hyn mae'r bardd yn gweld y Gymraeg yn adfywio yn ein hysgolion ac yn ein siarsio ar y diwedd i beidio ag ystyried Cwm Celyn yn fedd i'r iaith. Er y gallwn weld diben gwrthgyferbynnu hanes Tryweryn a'r adfywiad ieithyddol yng Nghwm Tawe, braidd yn aneglur inni oedd y cysylltiad â Hedd Wyn. A chan fod hanner y gerdd yn ymwneud â'r arwr hwnnw, mae'n golygu bod adeiladwaith y gerdd a'r diffyg cysylltiad rhwng ei gwahanol rannau yn wendid.

Mae gan Smotyn ambell gwpled da iawn, gan gynnwys yr un gwyb yma: "Troi iaith mam yn tswami / A'n llef yw eigion y lli." A rhaid ei ganmol am geisio cynnal y ddelwedd o'r dŵr. Ond wedyn rhyw naws braidd yn wamal, yn hytrach na dirdynol, sydd i gwpled fel hwn: "Argol! Sdim angen argae/ Mae ein [h]iaith yn cael mwynhau."

O ran rhoi cyngor technegol, er bod SMOTYN yn cynganeddu'n ddigon cywir, braidd yn sylfaenol ydi ei grefft ar hyn o bryd. Yn y cywydd, mae'n symud bron yn ddieithriad mewn cwpledi, a rhwng y llinell "Ei fyd ar chwâl" hyd at "pigo drwy'n llên" mae'n defnyddio'r llusg a'r draws fantach deirgwaith yn olynol – dylai geisio bod yn fwy amrywiol wrth ddewis y cynganeddion. Ac yn y dyfodol, syniad da hefyd fyddai ymarfer goferu o linell i linell yn achlysurol. Yn yr englyn ar y diwedd, mae angen cyfanswm o ddeg sill yn y llinell gyntaf – wyth a gawson ni fan hyn, er bod y patrwm acennu rhwng y goben a'r ail linell yn gywir.

Ond fel un sydd newydd ddechrau cynganeddu, llongyfarchiadau mawr i SMOTYN am ei ymdrech. Dal i ymarfer y grefft ydi'r peth pwysig rŵan.

## **YR ERLYNIAD**

Yn ein beirniadaeth yn y Cyfansoddiadau, fe ddywedwn fod YR ERLYNIAD mewn dosbarth ar ei ben ei hun – "nid o anghenraid o ran safon, ond gan ei fod wedi achosi penbleth difesur inni ... Dyma enigma o gynganeddwr medrus, ond un na allem wneud na phen na chynffon o'r hyn oedd ganddo i'w ddweud."

Yr hyn sy'n achosi'r dryswch ydi'r teimlad bod YR ERLYNIAD yn fardd dawnus a'n bod, fel beirniaid, o bosibl yn methu rhywbeth ac mai ni sydd yn dwp. Mae'n gynganeddwr profiadol i gychwyn arni: mae ei drawiadau'n gryf, prin y mae'n cyfeiliorni, ac mae'n ymwybodol o'r holl driciau sydd ar gael i'ch

helpu o dwll. Yn wir, gallai rhywun fynd trwy'r gerdd hon a mwynhau'r dyfeisgarwch cynganeddol sydd ynddi'n fawr.

Mae strwythur y gerdd hefyd yn ddiddorol ac yn feiddgar – y cyfan wedi'i osod fel rhyw fath o adroddiadau yn dilyn cyfweliadau'r heddlu. Enw'r "dioddefydd" ydi Merch y Drycinoedd. At hynny, rhoddir y dyddiad arwyddocaol o 31/7/17 – ganrif wedi marwolaeth Hedd Wyn. Mae yma gyfeiriadau at y gadair ddu ac at ddwrn haearn. Os ydi Merch y Drycinoedd yn symbol o gariad a natur a chreadigrwydd yn awdl Hedd Wyn, mae yma gyfeiriadau hefyd at Leto, mam Zeus yn y chwedlau Groegaidd, ac at y ferch Promethëaidd. Ac mae yma sôn am genhedlu a rhoi genedigaeth, ac o bosib, gyfeiriadau at drais.

Ond er i'r ddau ohonom ddarllen ac ailddarllen, roedd y dasg o ddeall union neges YR ERLYNIAD yn drech na ni. Roedd y dweud yn rhy astrus, ac mae yma ddefnydd helaeth o eiriau ac ymadroddion na chlywodd yr un ohonom mohonynt o'r blaen. Bron ein bod yn cael y teimlad fod yma rywun sy'n gynganeddwr abl wedi mynd ati i gynganeddu'r pethau cyntaf a ddaeth i'w feddwl. Roedd darllen y gerdd fel ceisio datrys pos – a hynny'n aflwyddiannus. Dyma'n casgliad yn y pen draw: naill ai mae YR ERLYNIAD yn ei chael yn anodd cyfleu ei feddyliau yn glir ar gynghanedd ar hyn o bryd, ac mae'r gynghanedd yn feistres ar ei fynegiant; neu fel arall mae'r meddyliau hynny yn rhy astrus i'r ddau feirniad yma eu deall!

Yn ein barn ni, mae eglurder mynegiant yn gwbl hanfodol wrth gynganeddu, ac yn anffodus, y tro hwn, aeth neges y bardd ar goll yn y niwl geiriol.

Dyma fân frychau cynganeddol i YR ERLYNIAD eu gwyllo yn y dyfodol, gan ei fod yn amlwg wedi meistrolï'r hanfodion: "di-nerth, / heb dân pair" (camacennu – yr acen yn yr ail linell ar ôl 'p'); "o dan fy nghnawd annwyl" (chwe sill); "fy ngên pur, fy angen pêr" (proestio); "Â'i bysedd mae'n gweu a chreu ei chreiriau" (acen lafarog sydd yn 'chreu'; mae'r acen ar 'r' yn 'chreiriau').

## **FFOADUR**

Dyma un arall y mae ei ffugenw'n rhoi cliw i'w destun. Mae pum rhan i'w gerdd: cawn ddisgrifiad o'r adar angau yn lladd yn Aleppo; cawn ddarlun o'r ffoadur yn dianc; mae 'arwr' yn canfod lle iddo ar gwch; cychwynnwn ar y fordaith gan ddarogan gwae; gorffennwn â phawb wedi boddi gan gwestiynu natur yr 'arwr' hwnnw a drefnodd y cwch ac elwa o'r gyflafan.

Yn amlwg felly mae FFOADUR wedi meddwl yn ofalus ymlaen llaw am saernïaeth ei gerdd; er bod y strwythur hwnnw'n uchelgeisiol, mae'r cyfan yn daclus ac yn dilyn yn rhesymegol ac felly rydym yn ei ganmol yn fawr am hynny. Doedd llawer o'r beirdd eraill heb drafferthu i'r un graddau ac roedd hynny'n dangos. Rheswm arall dros ganmol FFOADUR ydi mai prin ydi'r darnau haniaethol yma – mae'n creu darluniau byw ac am hynny mae rheswm i gredu y gall fod yn fardd peryglus yn y dyfodol.

Mae'r cyfan ar gynghanedd ac er bod yma ymdrech lew, efallai fod yma ormod o fân gamgymeriadau yma ac acw sy'n amharu ar ein mwynhad yn y pen draw. Mae'r bardd yn cloffi ormod yn dechnegol, ond drwy ymarfer fe ddaw i feistrolï'r grefft maes o law.

Dyma rai o'r manion technegol y dylai fwrw golwg arny'n nhw. Y llusg bengoll i ddechrau - mae llawer gormod o'r rhain ("Yng ngorlawnder y cerbyd" / "Gwêl eu nam, gŵyr ei amcan" / "I'r môr aiff y cwch gorlawn" / "Wylwn fel un dros yr hunllef"). Yn yr ail gywydd, mae gormod o symud mewn cwpled; syniad da ydi goferu weithiau o un llinell i'r llall er mwyn amrywiaeth. Ac wrth ddefnyddio'r gynghanedd sain anghytwys ddiacen, mae angen gwyllo'r gyfatebiaeth rhwng yr ail a'r drydedd rhan; mae FFOADUR yn aml yn anghofio bod angen ateb yr hyn sydd o dan yr acen hyd yn oed os ydi

ail ran y gynghanedd yn acennog. Er enghraifft, mae'r rhain i gyd yn anghywir: "Ifanc ydi'r llanc llonydd", "ond maith yw'r daith dros donnau", "llaw a ddaw o ddieithryn".

## ICARUS

Cerdd rydd gawsom gan ICARUS a hwnnw'n fardd crafog, dychanol a chellweirus. Wrth ein cyfarch a'i dafod yn ei foch yn yr ail linell ("Clywch fy chwedl, chwi blantol!") mae'n rhoi awgrym inni o'r hyn sydd i ddod. Ac yn wir mae'n chwa o awyr iach yn y gystadleuaeth drom hon.

Dychanu'r beirdd, yr awen a'r broses o greu y mae; yn ei ieuenctid, roedd yr adroddwr yn awdur tra addawol, ond wrth aeddfedu fe rydodd y ddawn honno cyn iddo wynebu bloc. Ond yn sydyn, yn y gerdd hon megis, dyma ailddarganfod ei ddawn a chreu campwaith o dŷ unnos, wrth "[b]entyrru llanast o ddelweddau / Rhag i'r arwr bylu unwaith eto".

Mae'n debyg mai gwawdio ego awduron y mae gyda'i gyfeiriad at 'arwr' fan hyn (ac mae'r ffugenw wrth gwrs yn awgrymu hynny). Fe wnaeth ICARUS inni chwerthin sawl tro, yn enwedig gyda'i frathiadau coeglyd ("You are your own worst enemy!" / lawn, wel, diolch am y cyngor chwyldroadol") a'i sylwadau sarcastig mewn cromfachau ("Yr ateb cawslyd o frie (ymddiheuriadau)", "A llethu ofn ac amheuaeth (a cliché)").

Tipyn o dynnwr coes felly, a phrin yw'r pethau gwael i'w dweud amdano. Dyma gartŵn hwyliog o gerdd sy'n llwyddiannus iawn ar ei lefel ei hun. Ond nid oeddem yn argyhoeddedig bod yma ddigon o ddyfnder i'n gwir gyffroi ac i godi'r cynnyrch i lefel teilyngdod mewn cystadleuaeth fel hon. Efallai hefyd y gallai ICARUS fod wedi cwtogi yma a thraw i wneud ei ddychan yn fwy siarp.

O ran manion technegol, dylid nodi bod ICARUS yn llithro'n ieithyddol o dro i dro: "Blynnyddoedd maith yn ôl" ("Flynyddoedd" fyddai'n gywir – mae'n adferfol); "Â'n well na rhai" (dim angen to bach); "Digon hawdd bu bodloni" (fu); "Yntau hwn fydd fy nghampwaith" (Ynteu). I un sy'n dychanu'r grefft, byddai rhywun wedi disgwyl iddo fod yn gwbl ddilychwin ei hun. Ond diolch i ICARUS am ein difyrru.

## RHYS

Cerdd yn y wers rydd sydd gan Rhys, ac mae'n dechrau'n addawol drwy gyfeirio at ei dad absennol. Mae'n mynd yn ei flaen i fynegi'i ddyhead i weld y teulu'n gyflawn, a dyna ar yr olwg gyntaf yw prif thema'r gerdd. Mae'r darlun o'r fam yn hel mwyr yn gryf: "Aur yr haul yn treiddio / i rubanau llwyd ei gwallt". Felly hefyd y darn sy'n sôn am ei ymweliadau ysbeidiol â'i dad; effeithiol ydi'r darlun o'r paneidiau a'r "pensynnu prynhawn". Ac wedyn fe gawn ein taro gan chwip o ddisgrifiad, un o'r goreuon yn yr holl gystadleuaeth yn wir: "Mae'r Sadyrnau'n sugno un wrth un / grychau fy nhalcen yn ddyfnach i'r cnawd". Trawiadol hefyd ydi'r ddelwedd o freuddwydio'r teulu'n gyflawn a'r darlun o neuadd hardd a llys.

Man gwan y gerdd hon yn ein barn ni ydi'r ffaith bod RHYS wedyn yn ceisio cyplysu'r thema ddomestig hon gyda darnau sy'n traethu'n anobeithiol am gyflwr modern ein byd. Mae yma gyfeiriad at Trump a thrais a therfysg, ond nid ydi'r rhannau hyn yn taro deuddeg cystal. Does dim cymaint o gynildeb awgrymog, ac maent yn llai celfydd na'r darnau eraill (e.e. "Cega gwag ac agwedd gam / sy'n codi cnafon at uchelfan, / teimlo'n gaeth, dim lle i droi, / cyfogi a cheisio ffoi"). Mae RHYS yn gorffen drwy ddatgan mai "Brexit yw fy nhad, Rhyddfrydiaeth fy mam" mewn ymgais i glymu ei ddwy thema ynghyd. Nid yw'n gweld dim ond anobaith o'i flaen, ond yn ein barn ni, efallai y byddai wedi bod yn well gorffen â'r dweud trawiadol "ac mae'r lôn, o hyd, yn datblethu, / yn datgymalu'n ronynnau mân" – gan fod y tair llinell olaf drachefn yn dweud yn lle dangos.

Mae RHYS yn gystadleuydd cryf, ac ar ei orau yn andros y fardd da sydd wedi cyrraedd yr uchelfannau mewn ambell ran. Y tro hwn ni lwyddodd i blethu ei ddwy thema yn llwyddiannus, ond mi all fod yn fardd peryglus yn y dyfodol drwy ddal ati.

## **GYRGOED**

Mae GYRGOED yn fardd gwahanol i bawb arall yn y gystadleuaeth, ac yn amlwg mae hynny'n ddechrau da. Tair soned go glasurol eu naws sy'n agor ei gasgliad. Mae'n dilyn y rheini â cherddi penrhydd sy'n fwy uniongyrchol eu harddull, ac yn cynnwys llai o rwysg geiriol. Ond eto mae yma dinc clasurol yn y rhain hefyd; bron ar brydiau eu bod yn salmaidd eu naws.

Cyhyrog a chyfoethog fyddai disgrifiad rhai o iaith ac arddull GYRGOED. Hen ffasw'n fyddai barn eraill, yn enwedig wrth ei weld yn rhoi'r ansoddair cyn yr enw ("dirgel bersawr", "aneirif lygaid") ac yn defnyddio geiriau sydd i bob pwrpas wedi hen ddiflannu o'n byd ("tud", "anoddun", "bawdd"). Annisgwyl yn wir mewn cystadleuaeth i feirdd o dan 25 oed. Ond mae gan bob bardd hawl i'w fynegi'i hun fel y gwêl yn dda. Ac am y rheswm hwnnw, yn ogystal â'r ffaith ei fod yn wahanol i bawb arall, awn ni ddim i gollfarnu GYRGOED am hyn.

Yn hytrach, y broblem fwy sylfaenol gyda cherddi GYRGOED yw ein bod yn ei chael yn anodd iawn dehongli'r hyn sydd ganddo i'w ddweud. Mae'n fardd dwys iawn; mae yma alltudiaeth, rhyw wewyr (yn sgil cariad o bosibl), ond y tu hwnt i hynny, mae'n anodd gwybod i sicrwydd yr hyn sy'n digwydd na'r hyn y mae'n ceisio'i ddweud.

Buom yn pendroni yn hir uwch y cerddi hyn, gan ein bod yn teimlo ein bod yng nghwmni bardd a saer geiriau, crefftwr gwych, ac un sy'n berchen ar adnoddau iaith coeth iawn. A does gan yr un ohonom fel beirniaid ddim yn erbyn beirdd sy'n gwneud i'r darllenydd weithio rhyw fymryn am y dehongliad. Rydym yn credu bod GYRGOED yn gwybod yn ei feddwl ei hun yr hyn mae'n ceisio'i gyfleu, ond fel darllenydd roeddem yn teimlo yn y niwl a'r dŵch, braidd. Roeddem yn gallu mwynhau ei ddefnydd cyfoethog o'r Gymraeg, ond roedd hynny'n cael ei danseilio wrth ymbalfalu'n aflwyddiannus am yr ystyr.

Mae yna ddeunydd bardd diamheuol yn GYRGOED; y cam nesaf fydd ceisio ymgysylltu'n well ac yn fwy eglur â'i gynulleidfa. Bydd wedyn yn un i'w wyllo.

## **GWALES**

Yng nghwmni GWALES, rydym bellach yn camu'n agos iawn at y dosbarth cyntaf. Casgliad o gerddi cynganeddol sydd yma, ac un soned yn eu canol. Mae'r cyfan wedi'i strwythuro'n dda. Cymru a'i ffawd ydi'r testun, a'r ddelwedd o'r genhinen bedr ar ŵyl Ddewi ar y cychwyn yn symbol o Gymreictod iach, a'r bardd ei hun yn teimlo mai fo fydd yr 'arwr' i arwain Cymru at annibyniaeth. Ond yna daw siom Brexit; ceir dadrith (ac 'Englynion Coffa Cymru'); mae'r bardd yn 'ildio'; cyn cloi â chywydd sy'n adleisio'r gerdd gyntaf a delwedd y genhinen bedr. Ond y tro hwn, mae'r bardd wedi sylweddoli na all fod yn arwr ar ei ben ei hun; mae angen llond gwlad o arwyr arnom er mwyn cael y maen i'r wal.

Felly dyna ddangos fod GWALES wedi meddwl yn hir am strwythur ei gerdd; mae yma ddelweddu cyson; mae'r saerniaeth yn daclus ac yn rhesymegol; ac mae hynny oll yn arwain at gyfanwaith da. Mae GWALES hefyd yn gynganeddwr tebol iawn; mae'r cywydd dychanol i Brexit yn hynod gryf a ffraeth, yn enwedig llinellau fel "A'n bai ni fydd y boen hon". Ac mae ganddo'r gallu i fynegi ei weledigaeth drwy gyfrwng ei grefft.

Y gwendidau mwyaf ydi'r ffaith nad ydi'r soned yn gydnaws rhywsut â'r gweddill cynganeddol, ynghyd â'r ffaith mai casgliad ac nid un gerdd a gafwyd. Mae'r mynegiant yn lân ac uniongyrchol, sydd i'w groesawu, ond mymryn yn brin o wir 'fflach' ydi'r cynnyrch yn y pen draw. O ddod o hyd i'r fflach honno, yr un peth bach ychwanegol hwnnw i roi i'w waith fwy o wmf, mi fydd GWALES yn camu'n gyfforddus i'r dosbarth cyntaf.

Manion technegol: mae GWALES yn gorffen ei soned gyda'r odlau "gaeth" ac "annibyniaeth" sy'n acennog ac yn ddiacen ac yn swnio'n od iawn.

## ŴYR

Dyma gyrraedd y dosbarth cyntaf.

Awdl goffa i'w dad-cu o löwr ('Dats') sydd gan ŴYR. Mae'n gynganeddwr taclus a chaboledig, a'i fynegiant yn lân, ac am y rhesymau hynny roedd yn codi i dir uchel yn syth.

Mae'r darn o'r awdl sy'n disgrifio'r tad-cu yn mynd i weithio i'r pwll glo yn enwedig yn dangos ei allu; dyma un o ddarnau unigol gorau'r gystadleuaeth: "Clywed, yn nhwrw'r cloeon, y rhewynt / ar foreau duon, / ac oerfel yr awelon / oer eu hynt drwy'r ddaear hon". (Efallai y byddai 'ar eu hynt' wedi bod yn well i osgoi'r ailadrodd rhwng oerfel ac oer, ond dyna ddangos yn glir ddawn ŴYR i greu darlun a naws.)

Mae'r awdl wedi'i saernio'n go dynn. Yn dilyn yr olygfa o'r pwll glo, cawn gipolwg ar wraig y tad-cu mewn cartref; darlun o'r tad-cu ei hun yn yr ysbyty; ac yna olygfa o'r fynwent wrth i'r bardd hel atgofion. Mae'n gerdd syml iawn, ac efallai y byddai modd ei beio am ddiffyg dyfnder, ond mae'n ddiffuant ac mae yma undod delweddol ac o ran crefft, yn ogystal â defnydd effeithiol o dechnegau fel ailadrodd cystrawennol: "a'i hiraeth sy'n gaeth i'w go', / hiraeth sy'n ei falurio". Mae ŴYR hefyd yn cysylltu gwahanol rannau o'r awdl gyda'r un delweddau sydd eto'n creu undod effeithiol.

Roeddem yn teimlo bod ŴYR yn chwythu plwc rhyw fymryn tua diwedd yr awdl; mae'n tueddu i droi yn ei unfan ryw ychydig. Mae'n wir hefyd ei fod yn dibynnu gormod ar hen drawiadau a chyfatebiaethau amlwg. Er enghraifft, mae llinellau tebyg i'r canlynol yn rhy gyfarwydd fel trawiadau cynganeddol: "a gafael mewn atgofion", "Ond, y nos sy'n dynesu", "Y wên sydd yn tywynnu", "Awelon o dawelwch", "O'r fynwent yr af innau". Mae ŴYR hefyd yn baglu wrth ddefnyddio wyth sillaf ddwywaith ("Er, ei afael sy'n arafu", "a'i olwg sydd wrthi'n pylu") a dylai fod yn ofalus iawn wrth ddefnyddio 'gwau' – mae'n manteisio ar y gair cyfleus (os annelwig) hwn yn rhy aml o lawer.

Wrth bwysu a mesur, ein barn yn y pen draw ydi bod ŴYR yn fardd sydd wedi meithrin yr adnoddau cynganeddol sylfaenol y mae ei angen arno fel bardd; mae ei grefft yn gadarn a'i fynegiant yn rhugl. Mae ganddo hefyd ddealltwriaeth drosiadol o sut i greu cerdd, neu awdl yn yr achos hwn. Er mwyn camu i'r lefel nesaf, mae angen iddo osgoi'r trawiadau rhwydd a'r tinciau cyfarwydd, a chanfod rhai newydd, mwy llachar a gwreiddiol ei hun. Beth hefyd am fentro hefyd i dir y mesurau hirion yn amlach nag a welwn yn yr ymdrech hon? Rydym yn cael y teimlad bod ŴYR wedi codi'r tŷ; y gamp nesaf yw ei lenwi â'i ddodrefn ei hun.

## LLEU

Awdl arall gan fardd sy'n wych ar ei orau. Teyrnged i'w fam a gawn gan LLEU, a hithau wedi magu'i phlant ar ôl marwolaeth sydyn y tad. Cawn ddisgrifiad o'r farwolaeth honno, a darlun wedyn o'r weddw'n galaru ac o'r angladd. Yna mae'r bardd yn disgrifio'r modd y wynebodd y fam ddewis: galaru neu ymwroli. Ac wrth ddewis yr ail lwybr, dyna roi testun edmygedd i LLEU a thestun i'w gerdd.

Prif rinwedd LLEU yw'r modd trawiadol y mae'n mynegi'r edmygedd hwnnw: mae'n deimladwy ond eto'n gynnil iawn, ac mae'r cyfan yn ddiffuant ryfeddol. At hynny, rydym yn teimlo mai LLEU yw cynganeddwr gorau'r gystadleuaeth oherwydd newydd-deb a ffresni'r cynganeddu hwnnw; mae'n gallu dweud ei ddweud yn y canu caeth yn fwy effeithiol na neb arall, ac yn gallu ysgrifennu llinellau ysgubol, fel y darn hwn am y fam yn magu'r plentyn ar ei phen ei hun: "Rhoi maldod babanod bach / Â neb oll a wnâi bellach". Neu y disgrifiadau o'r fam a'i haberth a'i hymroddiad di-ben-draw er ei cholled bersonol ei hun: "A'i charu hael gylch y rhod", "Gwneud y dasg ag egni dau".

Os canu o brofiad y mae'r bardd, yna mae'n llwyddo i gyffwrdd y galon. Os canu o'i ddychymyg y mae, yna mae'n gwneud hynny'n ddiwyll iawn ac yn llwyddo i argyhoeddi'n emosiynol yr un fath. Dyma'r bardd â'n gwnaeth i *deimlo* fwyaf yn y gystadleuaeth, ac onid dyna brif bwrpas barddoniaeth yn y pen draw?

Yn anffodus, mae un neu ddau o bethau yn rhwystro LLEU rhag cael y gadair eleni. Yn strwythur ei gerdd y mae'r gwendid pennaf, efallai. Ceir is-deitl i'r darn 'Angladd' sy'n anghydnaws â gweddill y rhannau unigol; ceir cwpled ar ei ben ei hun sy'n ymddangos braidd yn rhyfedd; ac mae yma ambell ddarn sy'n fwy llac na'i gilydd, yn enwedig y caniad "Wrth gynnal a gofalu" sy'n rhy niwlog ac yn is ei safon na'r darnau eraill. At hynny, mae yma ddiffyg amrywiaeth wrth ddefnyddio'r mesurau – mae'r cyfan fwy neu lai yn y mesurau seithsill a byddai wedi bod yn braf gweld mwy o arbrofi.

Oherwydd y mymryn cloffni uchod, mae'n anodd gwobrwyo LLEU y tro hwn. Ond roeddem yn edmygu ei fynegiant croyw, a chyda mwy o docio a thynhau y tro nesaf, a sicrhau bod pob llinell yn haeddu ei lle, bydd o fewn trwch blewyn iddi.

## DANIEL

Mae un ar ôl, sef DANIEL. Dyma fardd gorau'r gystadleuaeth heb os. O'r darlleniad cyntaf, mae'n hoelio ein sylw drwy ei allu i ddelweddu a disgrifio'n ddeheuig yn y wers rydd. Yn dra annisgwyl, cerdd ecffrastig sydd yma, sef cerdd sy'n ymateb i ddarn o gelfyddyd ac yn yr achos yma, ymateb i ffilm Ken Loach *I, Daniel Blake*, y mae'r bardd. Ar y cychwyn, roedd hyn yn peri mymryn o bryder inni; mae'r gerdd yn pwyso'n drwm ar ddigwyddiadau a chymeriadau'r ffilm, ac yn benthyg ei thema drwy drafod dioddefaint haenau isaf cymdeithas. Fel beirniaid fe fuom yn holi a oes angen i ni fod wedi gweld y ffilm? (Wrth ddechrau ar y gwaith beirniadu doedd yr un ohonom wedi), A ydi'r gerdd yn ail-bobiad o stori'r ffilm? Ydi'r gerdd yn gryfach a chithau wedi gweld y ffilm? Neu o bosibl, yn wannach?

Ond wrth ailddarllen, roedd y cwestiynau hyn yn ymddangos yn fwyfwy amherthnasol, a hynny gan fod yma ddawn farddol ddiamheuol, dawn a llais a lwyddodd i'n llorio â'i linellau ac i gynnal y safon o'r dechrau i'r diwedd. Yn y pen draw, roeddem yn argyhoeddedig fod hon yn gerdd sy'n sefyll ar ei thraed ei hun.

Gellir dyfynnu yn helaeth o gerdd Daniel, ond bodlonwn gyda'r pennill ysgytwol hwn sy'n disgrifio dynes yn gorfod gwerthu ei chorff er mwyn gallu goroesi.

"Na'r fam sengl chwaith  
a luchiodd freuddwydion llawn llyfrau i'r llawr  
er mwyn doddi ei hun ar silff  
I ddynion gael agor ei chloriau,  
Byseddu ei thudalennau,  
Dwyn ei llafariad,

A gosod llyfrnod ar dudalen deg  
I ddychwelyd yn ufudd ati.”

O ran aeddfedrwydd y dweud, mae Daniel ben ac ysgwydd uwch ben pawb arall yn y gystadleuaeth. Efallai'n wir mai ffilm sydd wedi ysbrydoli'r dweud hwnnw, ond lluniodd ddarn gwreiddiol o gelfyddyd sy'n datgelu haenau dyfnach gyda phob darlleniad. Am iddo lwyddo i hoelio ein sylw, a dal y sylw hwnnw gyda phob darlleniad wedyn, ac am iddo lunio cerdd a fydd yn sicr yn gwneud argraff ymysg darllenwyr y cyfansoddiadau, cadeirier Daniel, gan siarsio pawb arall ar yr un pryd i ddal ati.